***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### CYCHWYN ACHOSION

***Gwneud apêl neu hawliad***

**Apêl neu hawliad a wneir y tu allan i'r amser**

**16.**—(1) Caiff y Llywydd ystyried—

(a) unrhyw apêl sydd y tu allan i'r amser os yw'r Llywydd o'r farn, o dan holl amgylchiadau'r achos, y byddai'n deg a chyfiawn gwneud hynny;

(b) unrhyw apêl sydd y tu allan i'r amser o dan baragraff 4(3) o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

(2) Caiff y Llywydd geisio gwybodaeth bellach gan y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1).